CYNGOR CYMDEITHAS BOTWNNOG
Gwyndy, Bryncroes, Sarn, Pwllheli. Gwynedd. LL53 8ET.
Teleffon: Botwnnog 730357

DALIER SYLW AR YR AMSER DECHRAU

3ydd Mehefin, 2026

Annwyl Aelod,

Cynhelir cyfarfod o'r Cyngor **NOS LUN NESAF, 8fed MEHEFIN, 2026** yng Nghanolfan Bryncroes am **7.00 y.h.**

1. **CYHOEDDIADAU'R GADEIRYDDES**

2. **YMDDIHEURIADAU**

3. **DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

4. **CRONFA CEFNOGI CYNGHORAU CYMUNED – GWYNEDD Ni**
I ystyried cyflwyno cais – dalier sylw fod y **dyddiad cau dydd Llun, 15fed Mehefin, 2026.**
A oes gennych syniadau i'w trafod?
(Nodyn – soniwyd am hysbysfyrddau, dyma'r wefan lle prynwyd rhai o'r blaen: Greenbarnes.co.uk.noticeboards – os yr hoffech gael golwg cyn noson y Cyngor).

5. **SEDD WAG**
I adrodd ar y sefyllfa ddiwedaraf yn dilyn rhoddi hysbysebion fod sedd wag yn Ward Bryncroes.

6. **CADARNHAU COFNODION Y CYNGOR A GYNHALIWYD 11eg MAI, 2026**
Copi'n amgaeëdig. "A"

Yn y cyswllt hwn, adroddiad blynyddol Y Cynghorydd Gareth Williams, Aelod Pen Draw Llŷn ar Gyngor Gwynedd.
Copi'n amgaeedig. "A1"

7. **CEISIADAU CYNLLUNIO**
I drafod unrhyw gais ddaw i law cyn noson y Cyngor.

8. **AWDURDOD I DALU**
I awdurdodi'r taliadau a ganlyn ac unrhyw daliad arall ddaw yn ddyledus erbyn noson y Cyngor.
(a) J.D. a M.E.P. Williams – ail adeiladu a thrwsio Ffynnon Fair, Bryncroes - £300 + TAW
(b) Y Clarc £420.00
(c) HMRC £105.00

9. **ARCHWILIO'R CYFRIFON**

Bellach mae'r cyfrifon wedi cael eu harchwilio gan yr Adran Archwilio Mewnol Cyngor Gwynedd ac amgaeeir:

(a) Y ffurflen flynyddol am y flwyddyn ddaeth i ben 31 Mawrth, 2026. "B"
Nodyn bydd angen i'r Cyngor ei derbyn a'r Gadeiryddes arwyddo tudalen 5 o'r cyfryw.

(b) Adroddiad archwiliad mewnol. "C"

(c) Y wybodaeth sydd ei angen ar Archwilio Cymru (er gwybodaeth) "CH"

10. **FFYNNON FAIR, BRYNCROES A CASGLU YSBWRIEL**

Adroddiad y Gadeiryddes.

11. **LLWYBR O FOTWNNOG I NEIGWL UCHAF**

I ystyried gwahodd Hywyn Williams i gyfarfod mis Gorffennaf i drafod a oes grant/cymorth ar gael i drwsio a thrin y llwybr.

12. **MATERION FFYRDD/LLWYBRAU**

(A oes unrhyw ffordd/llwybrau angen sylw?

(b) Rhestr o waith i'w ymgymeryd gan yr Adran Priffyrdd yn ystod mis Mehefin – Botwnnog – cynnal ymylon ffyrdd ac hefyd cynllun i adnewyddu'r arwyddion gan gynnwys yr enwau'n uniaith Gymraeg.

13. **PLANNU BLODAU**

A oes eisiau archebu planhigion ar gyfer y potiau?

14. **HYSBYSIAD FFURFIOL O YMGYNGHORIAD GAN GYNGOR GWYNEDD AR GYNNIG ARDOLL YMWELWYR GWYNEDD**

Yr ymgynghoriad yn cael ei gynnal rhwng 20fed Mai a 15fed Gorffennaf, 2026. Anfonaf y wybodaeth drwy e-bost atoch, ond os yr ydych eisiau copi caled gadewch i mi wybod.

Yn gywir,

Gwenan Roberts

Carc

AELODAETH Y CYNGOR
Y CYNGHORWYR

Carys H. Evans
Dylan Parry Jones
Efan Thomas
Siôn Williams
Gwenan Griffiths
Glyn Roberts
Carys E. Williams
Elin Hughes
Michael Strain
Glenys Williams